# Taflen Wybodaeth 2026

***Triniaeth Homeopatheg a GAPS™ gydag Elin Alaw***

*Homeopath Proffesiynol ac Ymarferydd GAPS™ Trwyddedig*

---

## Cost Triniaeth ac Opsiynau Fforddiadwy

Mae pris triniaeth efo Elin yn adlewyrchu'r amser, y gofal, y profiad a'r gwaith gweinyddol sy'n angenrheidiol i redeg practis proffesiynol fel hwn.

Os ydi'r costau isod tu hwnt i'r hyn medrwch chi eu fforddio ar hyn o bryd, cysylltwch efo fi i drafod pa fath o **gôd disgownt** fyddai fwyf addas i'ch amgylchiadau personol chi.

Mae'n groes i'r graen meddwl fod y cyfle i iacháu yn gyfyngiedig i'r rheiny sy'n ariannol gyfforddus, felly gofynnwch ar bob cyfrif — gallwn ddod o hyd i delerau teg fel arfer.

Rydw i hefyd yn hynod ddiolchgar i'r rheiny ohonoch sy'n cynnig **gordaliadau** i helpu eraill sydd mewn angen. Bydd eich rhodd yn cael ei hysbysebu yn ddi-enw ar fy ngwefan, a chôd disgownt yn cael ei anfon i bwy bynnag sy'n manteisio ar eich caredigrwydd.

---

## Homeopatheg

### Apwyntiad Cyntaf – £150

- Hyd y sesiwn: hyd at 2 awr
- Cofiwch fod y ffi yn cynnwys yr amser y byddaf yn ei dreulio yn adolygu manylion ar ôl yr apwyntiad, yn ogystal â'ch **meddyginiaethau homeopathig personol** ac unrhyw gynghorion cyflym (o fewn rheswm) rhwng apwyntiadau (drwy alwad ffôn neu ebost).
- Yn achlysurol iawn, mae'n bosib y bydd angen i chi brynu eich meddyginaethau eich hun (e.e. at drin salwch aciwt – pan fyddai'r gwasanaeth post yn rhy araf – neu os ydym mewn gwledydd gwahanol ar adeg yr apwyntiad).
- Rydw i'n eich annog i fod â bocs o **feddyginiaethau homeopathig aciwt** yn eich cartref, er mwyn medru ymateb yn gyflym i unrhyw gyflyrau bach cyffredin (megis ffliw, gwenwyn bwyd, codymu a chleisio) rhwng apwyntiadau.

### Apwyntiadau Dilynol – £95

- Hyd y sesiwn: hyd at 1 awr.
- Yn arferol, bydd yr apwyntiad dilynol yn digwydd tua 4 wythnos ar ôl yr apwyntiad cyntaf, a'r trydydd apwyntiad ymhen 4 wythnos wedyn.

Yn ddibynnol ar faint o newid sydd yn eich symptomau, a pha mor gymhleth ydi'r achos, mae'n bosib y byddwn wedyn yn dal ati i gyfarfod yn fisol, neu yn dewis gadael 3–6 mis rhwng apwyntiadau - fel sy'n briodol i'r unigolyn.

- Mewn rhai achosion, gall fod yn fwy synhwyrol trefnu apwyntiadau byrrach ond amlach.
- Os oes blwyddyn neu fwy ers eich apwyntiad diwethaf, mae'n bosib y byddwn angen ail-ddechrau gydag apwyntiad dwyawr a'r ffi gysylltiedig.

### Cwestiwn Sydyn neu Salwch Aciwt – £30

- Hyd y sesiwn: 20 munud
- Os bydd ymholiad sydyn neu salwch aciwt yn codi ei ben cyn eich apwyntiad nesaf, anfonwch ebost ataf fi yn y lle cyntaf — byddaf yn gwneud fy ngorau i gynnig cyngor yn gyflym ac am ddim.
- Mae ambell i 'gwestiwn sydyn' yn amhosib' i'w ateb heb drafodaeth fwy manwl – os felly byddaf yn eich cyfeirio i'r calendr i drefnu apwyntiad byr.
- Gwasanaeth i **gleifion cyfredol** ydi hwn, h.y. y rhai ohonoch sydd wedi bod am apwyntiad dilynol o fewn y 6 mis diwethaf ac yn barod wedi trefnu apwyntiad dilynol.
- Os nad ydych wedi bod am apwyntiad dilynol o fewn y 6 mis diwethaf, ond yn dymuno cael cyngor ar salwch aciwt, gallaf argymell gwasanaeth yr **Homeopathic Helpline**: 0906 534 3404.

---

## Dyddiau Cyntaf G.A.P.S.™ – £30

- Hyd y sesiwn: 20 munud
- Addas i gleifion homeopatheg sydd hefyd am gychwyn dilyn argymhellion GAPS™.
- Mae nifer o bobl yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael sgwrs bob yn eilddydd yn ystod wythnos gyntaf 'GAPS Intro', ddwywaith yn ystod yr ail wythnos, ac unwaith yr wythnos ar ôl hynny a hyd at yr apwyntiad dilynol nesaf.
- Mae'r sesiynau yn fyr ond yn gefnogol, yn enwedig os oes blinder neu hen symptomau yn codi eu pen, neu gwestiynau ymarferol yn codi am sut i baratoi'r bwyd.
- Rydw i'n eich annog i ymgyfarwyddo ymlaen llaw efo gwaith Dr Natahsa Campbell-McBride (un ai'r llyfr **Gut and Psychology Syndrome** clawr melyn, neu'r llyfr **Gut and Physiology Syndrome** clawr glas).  Bydd arnoch hefyd angen copi personol o'r llyfr **The Heal Your Gut Cookbook** gan Boynton and Brackett.

---

## Taliadau

Pan yn trefnu apwyntiad ar fy ngwefan i, bydd eich taliadau yn cael eu gwneud drwy blatfform talu **Stripe**.
Os nad ydi gwneud y math yma o daliad yn gyfleus i chi, gallaf anfon dolen dalu o fath gwahanol.

## Holiadur Iechyd

Ar ôl trefnu a thalu am apwyntiad, bydd **Holiadur Iechyd** yn cael ei anfon i chi, i'w gwblhau a'i ddychwelyn i mi yn electronig, os gwelwch yn dda.
Bydd eich atebion yn arbed amser yn ystod ein cyfarfod, ac yn caniatáu i mi deilwra eich presgripsiwn yn fwy effeithiol.

---

## Recordiadau

Mae'n arferiad gen i i wneud **cofnod fideo** o apwyntiadau, er mwyn medru edrych yn ôl dros fanylion cyn paratoi eich presgripsiwn.
Fel rhan o'ch Holiadur Iechyd, byddwch yn gweld bocs i roi tic ynddo a llinell i'w llofnodi – dyma eich caniatâd chi i mi recordio ein sgyrsiau.

Mae pob recordiad yn cael ei drin yn gyfrniachol a'i gadw yn ddiogel.

---

## Awyntiadau Arlein.

Mae'r rhan fwyaf o fy apwyntiadau bellach **arlein**.
Ar ôl trefnu dyddiad a thalu, byddwch yn derbyn cadarnhâd ar ebost, yn ogystal â nodyn atgoffa dridiau cyn yr apwyntiad, ac eto 24 awr cyn yr apwyntiad.   Hefyd o fewn y negeseuon yma bydd y ddolen **Zoom** berthnasol.

Os gwelwch yn dda:

- Gosodwch eich tabled / gliniadur / ffôn ar le fflat sydd ddim yn siglo.
- Sicrhewch eich bod mewn lle preifat ac yn medru siarad yn agored, heb synnau cefndir na phobl yn torri ar draws.
- Byddwch yn bresennol efo fi — peidiwch â gyrru car, coginio, bwyta eich cinio na glanhau'r tŷ yn ystod y sesiwn.

Apwyntiadau plant:

- Byddaf angen gweld y plentyn ar y sgrîn a chael sgwrs efo fo / hi ar ddechrau'r sesiwn.
- Gwnewch yn siwr for teganau, llyfrau lliwio neu weithgareddau distaw wrth law i'w cadw'n ddiddig tra byddwn ni fel oedolion yn parhau'r sgwrs, neu drefnu fod oedolyn arall wrth law i ofalu amdano / amdani.

---

## Apwyntiadau Wyneb-yn-wyneb

Mae nifer cyfyngedig o apwyntiadau ar gael yn **ardal Llanrwst.**
Os ydi hi’n well gennych drafod pethau wyneb-yn-wyneb, cysylltwch efo fi yn uningyrchol ar elinalawhomeopath@yahoo.co.uk.

Er cyfforddusrwydd i bawb:

- Peidiwch â dod ag anifeiliaid anwes i mewn i’r clinig.
- Triwch beidio cyrraedd yn gynnar, gan nad oes ystafell aros.
- Ni ellir caniatau ysgmygu, tarthu mwg na gwisgo persawr cryf yn yr adeilad.

---

## Taliadau a Pholisi Canslo

- Rhaid talu yn llawn ar y dyddiad y gwneir apwyntiad.
- **Ni ellir gwneud ad-daliad**, oni bai mai fi sydd angen canslo neu ail-drefnu’r sesiwn.
- Os byddwch chi yn gadael i mi wybod eich bod angen canslo o fewn **48 awr i ddyddiad yr apwyntiad,** byddaf yn gwneud fy ngorau i’ch helpu i **ail-drefnu** dyddiad arall (yn ôl yr amseroedd sydd ar gael).
- Ni allaf gynnig ad-daliad os byddwch yn canslo, yn methu cyrraedd ar amser, neu yn anghofio troi fyny.

---

## Gwybodaeth bellach

Diolch am eich diddordeb mewn triniaeth holistig — rydw i’n edrych ymlaen at gyd-weithio efo chi.
Os oes gennych gwestiynau pellach, cysylltwch ar bob cyfrif.


Elin Alaw

07989 491 417

elinalawhomeopath@yahoo.co.uk